# RICHARD WILSON ETO

## gan RICHARD LEWIS

Yn fy erthygl ar Richard Wilson yn y rhifyn diwethaf o *Y Casglwr* cyfeiriais at y ffaith fod yna gofeb ddiddorol iawn iddo yng nghyffiniau'r Wyddgrug, sef arwydd tafarn. Mae Edward Pugh y paentiwr map-ddarluniau y dywedir iddo gael ei eni yn Rhuthun ac a gladdwyd yno ar 20 Gorffennaf 1813 yn cyfeirio at yr arwydd yn y gyfrol adnabyddus *Cambria Depicta* a gyhoeddwyd yn 1816.

Un arall sydd yn cyfeirio at yr arwydd yw Daniel Owen y nofelydd. Nid oedd Daniel Owen yn sôn llawer am gymeriadau hanesyddol yn ei weithiau ond fe geir y stori hon ganddo mewn erthygl o'i eiddo yn *Y Geninen* yn 1886. Fe gaiff y nofelydd mawr ei hun ddweud y stori:

> . . . Treuliodd flynyddoedd olaf ei oes yn y Colomendy, ger yr Wyddgrug. Dichon i rai o'r darllenwyr fod yn teithio rhwng y Wyddgrug a Rhuthyn, ac iddynt sylwi ar *sign* tafarndy, yn agos i Lanferes, o'r enw *Loggerheads*. Wilson a'i paentiodd. Er fod yr awdur wedi marw yn y flwyddyn 1782, daliodd ei baent ar *sign* y *Loggerheads* erwindeb pob tywydd, heb dderbyn nemawr niwed, hyd yn ddiweddar; ac hyd yn nod heddyw nid ydyw gwlaw a dryghin can' mlynedd a mwy wedi ei lwyr ddileu.

Y mae gan Daniel Owen stori dda am un arall o ddarluniau Wilson hefyd, sef llun o Bacchus. Unwaith eto fe gaiff yr awdur ei hun ddweud y stori:

> Yr wyf yn cofio, pan oeddwn hogyn, fod gan Jonathan Price, Ponterwyl — yr hwn oedd yn byw yn y drws nesaf ond un i'r tŷ lle y ganwyd ac y magwyd John Blackwell — ddarlun o Bacchus, o awduriaeth Wilson. Benthyciasai Mr Jones y Turf — tipyn o arlunydd hunanddysgedig — y darlun, er gwneyd copi o hono; ac fel cydnabyddiaeth am garedigrwydd Jonathan Price, yr oedd Mr Jones wedi rhoddi côt o *varnish* ar y darlun. Toc wedi hyn digwyddai fod Mr Williams, *artist*, Caernarfon, i bregethu yn y Wyddgrug. Rywbryd cyn myned i'r gwely nos Sadwrn, aeth Mr Williams i son am Wilson, ac am yr arian mawr a roddid y pryd hwnw am unrhyw beth o'i waith; ac ebe ei letywr wrtho — "Mae yma saer maen, a chanddo ddarlun o waith Wilson." "Beth!" ebe Mr Williams, "darlun o waith Wilson gan saer maen? Caiff dri chant o bunnau am dano!" Yn gynar fore Llun aeth Mr Williams i Bonterwyl. Ond, och! pan welodd efe y darlun, torodd allan mewn tymher gyffrous: "Mr Price, pwy oedd yr ynfytyn a fu yn rhoi *varnish* ar eich darlun? Oni b'ai am y *varnish*, cawsech dri chant o bunnau am dano; ond yn awr mae yn amheus genyf a gewch chwi bunt." Mawr oedd gofid Jonathan Price am garedigrwydd Jones y Turf.

Dychwelwn yn awr at yr arwydd tafarn. Y mae rhai o'r farn fod Wilson wedi paentio nifer o arwyddion tafarn yn y cylch. Cyfeirir yn benodol at arwydd y Ship Inn yn Llong ger yr Wyddgrug. Llun o long hwylio fawreddog oedd ar yr arwydd ac yn ôl pob sôn bu'r arwydd yn hongian y tu allan i'r adeilad am flynyddoedd ar ôl iddo beidio a bod yn dŷ tafarn. Wedi i'r arwydd ddirywio'n enbyd tynnodd perchennog y tŷ ef i lawr a'i dorri'n goed tân. Mae'n debyg nad oedd y perchennog yn gwybod dim am hanes yr arwydd nes i glerigwr lleol roi pryd o dafod iddo am ei falu!

Dywed rhai fod Wilson wedi llunio'r arwyddion hyn i ddifyru ei hun ac eraill. Dywed eraill ei fod wedi gorfod eu llunio i glirio ei ddyledion yn y tafarndai.

Dywedir bod tafarn y Loggerheads tua 300 oed a'i bod dros y blynyddoedd wedi diwallu anghenion miloedd o ymwelwyr. Tybia rhai fod neb llai na Felix Mendelssohn ei hun wedi bod yn aros yno ar un adeg ac wedi cyfansoddi tra'n aros yno. Yn ôl rhai arbenigwyr dywedir fod y darn piano o'i eiddo, 'The Rivulet' wedi ei ysbrydoli gan Afon Alyn.

Mae'r arwydd a baentiodd Wilson ar gyfer tafarn y Loggerheads yn dangos pennau dau ŵr bonheddig gefn wrth gefn, gan roi'r argraff fod y ddau yn gwrthod siarad â'u gilydd. Yn ôl un traddodiad lleol darlun o ddau o gyfeillion Wilson o'r Wyddgrug sydd yn y llun. Y mae yna draddodiad arall sydd yn dweud mai cweryl ffyrnig dros ffiniau yn y gymdogaeth yn y 1700au roddodd ysbrydoliaeth i'r llun. Mae'n debyg mai ffurf y cyfnod ar y gair Saesneg *blockhead* sy'n golygu penbwl, hurtyn neu dwpsyn yw'r gair *loggerhead*. Os byddai ymwelydd diniwed yn gofyn lle roedd y trydydd dwpsyn yr ateb a gawsai oedd mai efe ydoedd.

Pan ddaeth tafarn y Loggerheads ar werth yn 1926 fe'i prynwyd gan y teulu Dean am tua £5,000 a bu'n eiddo i'r teulu wedyn tan tua 1933. Dyma pryd y cafodd yr arwydd ei symud o flaen yr adeilad i glydwch mewnol y dafarn. Erbyn heddiw ffacsimili modern yw'r arwydd sydd ar y tu allan. Mae'r arwydd gwreiddiol yn dal i hongian yn y dafarn. Er iddo gael ei lanhau yn ddiweddar gan arbenigwyr o Oriel Walker yn Lerpwl nid yw mewn cyflwr da.

Cyn gadael y teulu Dean mae'n werth nodi iddynt godi ystafell fwyta oedd ddigon mawr i eistedd tua 70 o bobl yng nghefn y dafarn yn 1930. Yr hyn sy'n ddiddorol amdanynt yw fod ganddynt ddau fwnci o'r enw Mickey a Jacko. Yn ôl y sôn nid oedd rhai o'r ymwelwyr yn rhy hoff o gampau Jacko ac fe'i gwerthwyd i dafarnwr o Birmingham!

Yr hyn a'm hysbrydolodd i lunio'r nodyn ychwanegol hwn ar Wilson oedd y ffaith imi ddod ar draws cerdyn post o tua 1930 yn ddiweddar oedd yn dangos arwydd tafarn y Loggerheads. Fe'i cyhoeddwyd gan y teulu Dean, perchenogion y dafarn rhwng 1927 a 1933.





## AR WERTH

***Set gyflawn o* Y Brython *o rif 1 (8 Chwefror1906) hyd rif 1723 (23 Chwefror 1939).*** Wedi eu rhwymo yn 34 cyfrol hardd. Pris i'w drafod.

**Geraint Lloyd Owen, Bodaden, Ffrwd Cae Du, Bontnewydd, Caernarfon, Gwynedd.**
**Ffôn: (0286) 830307.**

* * * *

***Hen Beithynen mewn cyflwr ardderchog.*** Yn wreiddiol o Gaernarfon. Os oes ganddoch ddiddordeb ffoniwch (0766) 513644 am fanylion pellach.

* * * *

***Dros gant a hanner o lyfrau Cymraeg a Chymreig am brisiau rhesymol.*** Llenyddiaeth, beirniadaeth lenyddol, hanes, hanes lleol, gwleidyddiaeth, iaith a chrefydd. Llyfrau gan Saunders Lewis, I. C. Peate, Eben Fardd, Isaac Foulkes, Gwynfor Evans, Matthew Arnold, Cybi, Deiniol Fychan a chant o awduron eraill. Gyrrwch stamp am restr gyflawn.
**Hedd ap Emlyn, Maes y Meillion, Ffordd Wrecsam, Johnstown, Wrecsam, Clwyd LL14 1PE.**